

Rhifyn Rhif 51 Hydref 2016

Golygydd: Steve Cuttle (Ffôn 01970 625484 neu e-bost spcuttle@btinternet.com)

Bydd y cylchlythyr hwn ar gael yn ddwyieithog fel ffeil pdf trwy droi at <http://www.aber-gag.org.uk/>


Golygydd. Dyma rifyn cyntaf y cylchlythyr hwn ar ôl cael golygydd newydd (gweler y manylion cyswllt newydd uchod). Diolch i David Kirby am gynhyrchu'r 11 rhifyn blaenorol ac am gynorthwyo gyda'r rhifyn hwn.

Swyddogion Cyngor Sir Ceredigion [CSC] sy'n gyfrifol am y Parc. Gadawodd Ben Sampson CSC ym mis Rhagfyr 2015. Ymgwymerodd Leanne Bird â'r cyfrifoldeb dros dro tra bod tîm Arfordir a Chefn Gwlad CSC yn cael ei ailstrwythuro. Yna, ymgwymerodd Paul Evans â'r cyfrifoldeb.

Newidiadau i'r Pwyllgor Mae Roger Bray wedi ymddiswyddo ar ôl gwasanaethu ar y pwyllgor ers iddo gael ei sefydlu, ond mae Christopher Allen wedi ymuno â ni. Estynnir croeso i aelodau newydd bob amser: os oes gennych chi ddiddordeb, a fydddech gystal â mynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (gweler isod) neu cysylltwch â'r Golygydd.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol PNP eleni yn yr Octagon yng Nghanolfan Fethodistaidd St Paul ar nos Fercher, 16 Tachwedd 2016 am 7.30pm. Yn dilyn y sesiwn busnes, rhoddir anerchiad gan James Wallace, Cyfarwyddwr Campws a Gwasanaethau Masnachol ym Mhrifysgol Aberystwyth, a fydd yn dwyn y teitl 'Datblygiad Y Fferm ym Mhenglais a Pharc Natur Penglais'. Mawr obeithiwn y bydd nifer dda yn bresennol er mwyn clywed am ein diddordeb cyffredin yng nghoetiroedd Penglais.

Ffiniau'r Parc Efallai bod rhai ohonoch wedi sylwi ar y garreg sy'n cynnwys y llythrennau PNP wrth un o'r ffyrdd allan o



Bentre Jane Morgan. Nid yw hwn yn dynodi ffin y Parc, sy'n cychwyn wrth Gât y Prifathro a'r bariau pren yr ochr draw i Blas Penglais. Mae'r darnodiad rhwng PNP a choetir y Brifysgol yn mynd yn llai clir gan bod Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prifysgol Aberystwyth [AUCV] wedi cael gwared ar rywfaint o'r ffens wrth ymyl Gât y Prifathro, ar ôl sicrhau cymeradwyaeth y Brifysgol. Edrychwn ymlaen at fwy o gydweithredu rhwng y Brifysgol a PNP gan ein bod yn goetiroedd cyffiniol.

Hanner Cynnar y Parc (David Kirby) Yn ystod y 1700au a'r 1800au, roedd nifer fach o deuluoedd yr oedd ganddynt ystadau mawr yn berchen ar lawer o'r tir o gwmpas Aberystwyth, megis teulu Powell yn Nanteos a theulu Pryse yng Ngogerddan. Gwelwyd cyflwr yr ystadau hyn yn dirywio yn ystod y 1900au cynnar, yn aml o ganlyniad i gyfuniad o drethi uchel a chamreoli. Yn aml, y Rhyfel Byd Cyntaf neu'r Ail Rhyfel

Byd oedd yr hoelen olaf yn yr arch iddynt, yn rhannol oherwydd prinder llafur. Dyma fu hanes

Ystad Penglais hefyd, a fu'n eiddo i deulu Richard ers tua 1700. Ym 1946, roedd yr ystad mewn cyflwr gwael iawn a phenderfynwyd gwerthu'r hyn a oedd yn weddill. Roedd y Brifysgol yn dymuno ehangu ar ôl y rhyfel. Daethant o hyd i gymwynaswr, sef gwerthwr Ilaeth o Lundain a oedd wedi ymddeol, ac yr oedd o dras Cymreig – Alban Davies. Dywedwyd ei fod wedi cytuno mewn un diwrnod talu £34,000 [gwerth 1946] er mwyn prynu 220 erw o'r ystad, ac yna, ei fod wedi'i roi i'r Brifysgol. Ar yr un pryd, roedd Cyngor Bwrdeistref Aberystwyth yn dymuno adeiladu tai ar gyfer yr arwyr a fyddai'n dychwelyd o'r rhyfel, ac roeddent wedi gwneud Gorchymyn Prynu Gorfodol [CPO] ar ran o Riw Penglais er mwyn adeiladu tai Cyngor. Roedd hyn yn gwrthdaro â chynlluniau'r Brifysgol. Yn y diwedd, cytunodd y Cyngor, ar sail pleidlais o 11 i 7, dderbyn 23 erw o dir (y mae cryn dipyn ohono yn ffurfio PNP nawr), dan brydles a fyddai'n para 999 o flynyddoedd, er mwyn ei ddefnyddio fel Maes Parcio, ar yr amod y byddai'r CPO ar gyfer y tai yn cael ei dynnu'n ôl. Byddai modd rhoi crynodeb o'r digwyddiadau mwy diweddar yn y Cylchlythyr nesaf.

Diwrnodau Gwaith yn y Parc Yn y glaw trwm iawn ar ddydd Sadwrn 20 Chwefror 2016, bu myfyrwyr o AUCV, dan oruchwyliaeth Peter Drake, yn dechrau ar y gwaith o adeiladu cyfres o risiau wrth ben gogleddol y chwarel er mwyn gwella'r mynediad i'r estyniad newydd i'r Parc. Diolch byth, roedd yr haul yn gwenu pan fu aelodau'r pwyllgor yn cwblhau'r gwaith hwn ar y dydd Llun dilynol. Roedd cryn ddefnydd yn cael ei wneud o'r grisiau, hyd yn oed wrth iddynt gael eu hadeiladu.

Cliriwyd drysi ac eithin o'r man o gwmpas golygfan y chwarel gan 7 o fyfyrwyr AUCV, Peter Drake a nifer o aelodau presennol a chyn aelodau pwyllgor PNP ar ddydd Sadwrn 8 Hydref 2016. Mae gennym raglen reolaidd i glirio'r eithin yn y chwarel er mwyn cadw'r llwybrau ar agor, creu rhwystr tân a chynnal man agored sy'n addas i ymlusgiaid sy'n torheulo.

Problemau ariannol (Len Kersley)

Ar ôl i Lywodraeth Cymru benderfynu tynnu cyllid yn ôl ar gyfer Amgylchedd Cymru, mae wedi mynd yn anodd iawn cael gafael ar arian ar gyfer prosiectau yn y Parc er mwyn ychwanegu at yr adnoddau cyfyngedig a roddir gan Gyngor Ceredigion.

Yn anffodus, bu ein ceisiadau i Gynllun Grantiau Bach Llywodraeth Cymru, Cynnal Y Cardi a Chist Gymunedol White Stuff yn aflwyddiannus. Fodd bynnag, mae'r Grŵp Cymorth yn parhau i chwilio am ffynonellau cyllid priodol, a byddai wrth ei fodd clywed am unrhyw bosibiliadau fel bod modd i ni barhau i wella PNP fel gwarchodfa natur drefol sy'n cynnig mynediad llawn er mwynhad ein holl ddefnyddwyr niferus ac amrywiol.



Plannu coed Mae rhieni Lizzie Tyson, cyn fyfyrwraig yn Aberystwyth, wedi bod mor garedig â rhoi dwy goeden i PNP er mwyn cofio am ei chyswilt hapus â'r brifysgol a'r dref, gan gynnwys amser a dreuliodd gydag AUCV yn gweithio yn y Parc. Plannwyd y coed mewn seremoni fach a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2016, a fynychwyd gan Lizzie a'i rhieni. Roedd Cyngorydd Mark Strong wedi mynegi ei ddiolch ar ran CS Ceredigion, yn ogystal â Jim Wallace a oedd yn cynrychioli'r brifysgol. Roedd niferoedd da o aelodau Pwyllgor Grŵp Cefnogi PNP,

aelodau presennol AUCV a'r cyhoedd wedi mynychu'r seremoni. Plannwyd y coed, sef llwyfen lydanddail a phisgwydden deilen fach, mewn safle canopi agored gerllaw'r man lle y mae'r prif lwybr yn pasio'r pwll.

Arolwg ymlusgiaid (David Kirby) Cyhoeddwyd canlyniadau arolwg cyntaf y flwyddyn (2015) yng Nghylchlythyr Rhif 50. Roedd hwn yn cynnwys tymor llawn yn y chwarel, ond ni chynhwyswyd yr estyniad tan yn hwyr yn ystod y tymor, gan ei fod newydd ddod yn rhan o'r Parc.

Eleni, gosodwyd 13 noddfa artiffisial yn yr estyniad ac 21 yn y chwarel. Archwiliwyd dwy noddfa "naturiol" dan gerrig hefyd. Cychwynnodd yr arolwg ar 18 Mawrth, cyn yr oedd unrhyw ymlusgiaid wedi diuno o'u gaeafgws, a daeth i ben ar 18 Hydref, pan ddarganfuwyd dim ond un neidr ddefaid blwydd oed a llygoden y gwair dan y 33 mat a archwiliwyd y diwrnod hwnnw. Yr ymlusgiad cyntaf a ganfuwyd yn 2016 oedd madfall ar 28 Mawrth.

Archwiliwyd rhai teils ar 56 dyddiad ar draws y tymor. Ni archwiliwyd pob noddfa bob amser. Cynhaliwyd 1482 archwiliad o noddfeydd artiffisial yn 2016.

Sawl	Gwaith y gwelwyd fertebraid	2016
	Ar neu dan noddfeydd artiffisial	Noddfeydd naturiol neu'n rhydd yn yr amgylchedd
Mamaliaid bach, llygod y gwair yn bennaf	12	0
Nadroedd defaid	310	33
Madfallod cyffredin	46	3
Llyffantod	30	5
Madfallod dŵr	0	6
Cyfanswm	401	

Byddai modd arsylwi'r un anifail ar sawl achlysur. Gyda nadroedd defaid yn arbennig, mae modd gwahaniaethu rhwng rhai anifeiliaid yn ôl eu maint, eu lliw, eu rhyw, y ffaith eu bod yn feichiog ac a ydynt wedi bwrw eu cynffonau. Ymdrechwyd i dynnu lluniau o'r holl anifeiliaid a welwyd yn erbyn rhyw fath o raddfa a llwyddwyd i ddal rhai nadroedd defaid a'u pwysu. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddadansoddi'r canlyniadau.

Gwelwyd madfallod a nadroedd defaid newydd-anedig eleni, felly mae gennym boblogaethau magu o'r ddwy rywogaeth. Ni welwyd unrhyw nadroedd yn ystod y naill flwyddyn na'r llall.

Blychau nythu adar. Mae **Moira Convery** a thri chynorthwydd wedi parhau gyda'r gwaith yn ystod y gwanwyn o fonitro 26 blwch nythu a osodwyd ar goed yn y Parc. Nid oes modd bod yn hollol gywir wrth gyfrif union nifer yr wyau neu'r cywion bob amser, heb darfu arnynt. Weithiau, bydd cyw yn marw yn gynnar a bydd y rhieni'n cael gwared ar y corff, felly mae modd i ni fetu cofnodi hanes y rhain. Y niferoedd a nodir yma ar gyfer 2016 yw'r niferoedd isaf. Roedd 20 o'r 26 blwch, 77%, yn cael eu defnyddio, ond roedd un a oedd yn cynnwys wyau wedi cael ei adael, heb i ni adnabod y rhywogaeth.

Fel arfer, mae titwôd yn cynhyrchu nytheidiau mwy o faint na hyn. Mae rhwng 9 ac 11 yn eithaf cyffredin. Un rheswm posibl am y niferoedd is yw'r tywydd gwael a gafwyd dros y gaeaf a'r gwanwyn, a allai arwain at y ffaith nad yw'r benywod mewn cyflwr magu cystal. Adroddwyd ein canlyniadau dros yr 25 o flynyddoedd diwethaf i Ymddiriedolaeth Adareg Prydain (BTO). Gan ein bod wedi bod yn gyfrannwr arwyddocaol i gronfa ddata magu Titwôd Tomos Las BTO, mae myfyriwr PhD sy'n gweithio gyda BTO a Phrifysgol Durham ac sy'n ymchwilio i effaith y newid yn yr hinsawdd ar batrymau magu Titwôd Tomos Las, wedi cysylltu â ni. Mae hi'n ymchwilio

i'r cwestiwn a yw tymereddau amgylcheddol cynyddol yn achosi camgymhariad amserol rhwng penllanw poblogaeth lindys a'r galw gan gywion bach. Mawr obeithiwn y bydd modd i ni ei chynorthwyo gyda'i hastudiaethau.

Baw cŵn (David Kirby) Bu cynnydd yn nifer y bagiau plastig yn llawn baw cŵn sy'n cael eu gadael yn y Parc. Os ydynt oll oherwydd bod perchnogion wedi eu gadael ar ddechrau taith gylchol gyda'r bwriad o'u casglu ar eu ffordd yn ôl, mae amnesia wedi taro ein holl gerddwyr cŵn ar yr un pryd! Os byddwch yn casglu baw eich ci mewn bag plastig, a fyddech gystal â mynd â hwn gartref gyda chi. Ni ddylech adael baw heb fod mewn bag ar ganol llwybr. Defnyddiwch frigyn i'w wthio i'r prysgwydd ar ochr y llwybr. Yna, bydd modd iddo sychu a dirywio neu gall fod yn fwyd ar gyfer gwllithod a chwilod.

Cymdeithas Botaneg Aberystwyth. Am 2 awr ar ddydd Sul 16 Hydref 2016, arweiniwyd 10 aelod ar daith gylchol gan David Kirby, gan gychwyn o Blas Penglais a chyrraedd golygfan PNP yn y chwarel. Tynnwyd ein sylw at y ffyngau Porslen sy'n tyfu

ar un o'r coed Ffawydd yn y Llannerch Ffawydd gan fycolegydd a oedd ar y daith, ac yn anffodus, mae gan y goeden hon foncyff pwr. Diolch byth, nid yw'n ymddangos bod unrhyw rai o'r coed ffawydd eraill yn yr ardal wedi cael eu heintio.

Ers sefydlu'r Parc, mae

ffotograffau o bwynt sefydlog wedi cael eu tynnu tua bob dwy flynedd, ac ar yr un amser o'r flwyddyn, mewn 26 lleoliad ar draws y Parc. Y nod yw cofnodi newidiadau, yn enwedig y rhai sy'n deillio o gamau gweithredu y nodir eu manylion yn y Cynllun Rheoli. Yn wreiddiol, gwnaethpwyd y gwaith cofnodi ar ffilm ffotograffig. Sganiwyd yr holl brintiau cynnar er mwyn rhoi cofnod digidol cyflawn. Tynnwyd y lluniau o'r pwll sydd ynghlwm 25 o flynyddoedd ar wahân.

Facebook. Rydym wedi bod yn rhedeg tudalen Facebook ar gyfer y Parc dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae 110 wedi hoffi'r dudalen. Y cyfeiriad yw

www.facebook.com/Parc-Natur-Penglais-917579081656878/timeline/

Troednodyn (David Kirby) Cychwynnwyd y cylchlythyr hwn gan Steve Cuttle ond yn anffodus, bu'n rhaid iddo fynd i'r ysbyty cyn ei orffen. Mawr obeithiwn y bydd Steve wedi gwella'n llwyr erbyn i chi ddarllen hwn.

Diolch i Laurie Wright am roi'r cylchlythyr ar dudalen hafan GAG, diolch i'r "postmyn" a ddosbarthodd gopi a diolch i bwyllgor PNP am gyfraniadau ac am brawf-ddarllen.

